Newyddlen Pont Llannerch

Pwrpas y newyddlen hon

Cyhoeddir y newyddlen hon gan yr adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych. Y nod yw sicrhau fod trigolion a busnesau lleol a phartïon eraill sydd â diddordeb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd ein prosiect ar Bont Llannerch. Ein bwriad yw cyhoeddi newyddlen bob chwarter fel eich bod yn gwybod beth ydym wedi gwneud, beth ydym yn fwriadu ei wneud nesaf, a chyfleoedd i chi gymryd rhan yn natblygiad y prosiect hwn.

Yn y rhifyn hwn, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yn hyn, byddwn hefyd yn ateb eich cwestiynau. Dyma'r cwestiynau a dderbyniom fel rhan o'r ymgysylltiad cyhoeddus a gynhaliom yn Hydref 2021 i ddeall diddordeb y gymuned o ran y gwaith ar y bont.

Hanes y prosiect: beth sydd wedi digwydd gyda Phont Llannerch hyd yn hyn

Roedd Pont Llannerch yn bont gwaith maen a adeiladwyd ddiwedd yr 18fed ganrif neu ddechrau'r 19feg ganrif dros yr Afon Clwyd. Roedd y bont yn cysylltu cymunedau Trefnant a Thremeirchion yn Sir Ddinbych. Yn ystod y llifogydd yn Ionawr 2021 a achoswyd gan storm Christoph, bu i goeden dderw gyfagos ddisgyn i'r afon a dinistrio Pont Llannerch wrth iddi gael ei hysgubo i ffwrdd.

Ers Ionawr 2021, rydym wedi bod mewn trafodaethau gydag asiantaethau partner gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw er mwyn deall yr ystyriaethau gofynnol cyn ymgysylltu â'r gymuned i ddeall a oedd angen neu ddymuniad am y bont yn lleol.

Roedd yr ystyriaethau yn cynnwys:

1. **Natur hanesyddol y bont:** Roedd y bont flaenorol yn strwythur rhestredig gradd II. Bydd y Cyngor yn trafod dewisiadau ar gyfer y safle gyda chorff treftadaeth Llywodraeth Cymru, CADW, fel rhan o'r broses gynllunio.

2. **Newid amgylcheddol:** Mae llif Afon Clwyd wedi newid yn sylweddol ers adeiladu'r bont, oherwydd llifogydd parhaus. Dyma ran o'r rheswm pam cafodd y bont ei hysgubo i ffwrdd. Yn ogystal â hynny, rhagwelir y bydd llifogydd yn cynyddu mewn amlder ac yn fwy difrifol wrth i effaith parhaus yr hinsawdd fyd-eang a newid ecolegol barhau i gael ei deimlo. Felly bydd Adnoddau Naturiol Cymru yn rhan bwysig iawn o'r broses gynllunio a byddwn yn parhau i drafod sut y bydd angen i unrhyw gynllun newydd ar gyfer pont Llannerch fod yn gadarn ar gyfer tywydd y dyfodol.

3. **Diogelwch y ffyrdd:** Cyn i'r bont gael ei dinistrio, roedd nifer y traffig ar y ffordd yn llawer uwch na'r hyn oedd y ffordd wreiddiol yn gallu ymdopi ag o. Rydym yn ymwybodol fod y ffordd yn cael ei defnyddio'n aml gan bobl oedd yn dymuno mynd ar y gefnffordd A55 gyfagos, yn arbennig yn ystod oriau brig. Hoffai'r Cyngor ystyried a oes angen gwaith ehangach ar y ffordd hon fel rhan o'r cynllun.

Er mwyn deall sut mae barn y gymuned leol yn ffitio i mewn i'r ystyriaethau hyn, cyflawnodd Gyngor Sir Ddinbych gyfnod o ymgysylltiad cyhoeddus yn ystod Medi a Hydref

2021. Gofynnom i drigolion a busnesau lleol ac ymwelwyr am eu barn o ran a ddylid gosod pont newydd o gwbl, ac os oedd, sut ddylai'r Cyngor fynd o amgylch pryderon (weithiau'n gwrthdaro) o amgylch diogelwch ffyrdd, cadernid llifogydd a threftadaeth leol.

Cymerodd 750 o bobl ran yn y gweithgaredd ymgysylltiad cyhoeddus, gyda 94.57% o'r holl ymatebwyr yn awyddus i weld gwaith ar Bont Llannerch. Fodd bynnag tu hwnt i hyn, nid oedd yr ymatebwyr yn cytuno gymaint o ran sut ddylai'r Cyngor weithio gydag asiantaethau partner er mwyn cydbwyso anghenion diogelwch ffyrdd, cadernid llifogydd a threftadaeth leol.

Ers i'r ymgysylltiad cyhoeddus ddigwydd, cynhaliwyd cyfarfod Cabinet Cyngor Sir Ddinbych ar Tachwedd 23, 2021, a phenderfynwyd (yn seiliedig ar gytundeb y cyhoedd) cefnogi'r egwyddor o osod pont newydd, yn amodol ar sicrhau'r arian angenrheidiol.

Ers hynny rydym wedi bod yn gweithio ar arolygon tir a gwaith arbenigol arall fydd yna'n galluogi'r Cyngor i lunio achos busnes a chais am gyllid allanol i ddylunio ac adeiladu pont newydd.

Beth ydym yn ei wneud nesaf?

Yn y misoedd diwethaf mae'r cyngor wedi penodi ymgynghorwyr i edrych ar agweddau dylunio dechreuol y bont newydd ac i ystyried opsiynau o ran sut fydd yn cael ei gosod. Mae hyn yn hanfodol gan ein bod angen cyflawni modelu cyfrifiadurol o sut fyddai'r afon yn ymateb mewn sefyllfaoedd gwahanol fel y gellir lleddfu unrhyw bryderon am yr agwedd hon. Mae hyn yn hynod o bwysig gydag afon mor gyfnewidiol. Mae dadansoddiad ac arolwg ymchwiliad tir hefyd yn hanfodol er mwyn rhoi busnes achos cadarn yn ei le. Fodd bynnag, mae hyn yn dasg gostus, felly am y tro byddwn yn aros nes i ni gael mwy o sicrwydd o ran lle fydd sylfaeni'r bont newydd yn cael eu gosod.

Atebion i'ch cwestiynau

Isod mae rhai o'r cwestiynau a dderbyniom yn ystod yr ymarfer ymgysylltiad cyhoeddus yn Hydref y llynedd, neu drwy Gynghorwyr lleol.

Beth mae'r Cyngor wedi'i wneud rhwng 21 Ionawr 2021 a rŵan?

Yn syth ar ôl y storm a ddinistriodd Pont Llannerch, roedd y Cyngor yn brysur yn delio â nifer o argyfyngau ar draws y sir gan fod y storm wedi achosi difrod sylweddol mewn nifer o fannau yn Sir Ddinbych.

Yn dilyn hyn, asesodd y Cyngor safle'r Bont a'i wneud yn ddiogel ar gyfer y cyhoedd, cyn dechrau trafodaethau cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw. Nod y trafodaethau hyn oedd deall pa feini prawf cyllido yr oedd angen eu bodloni er mwyn sicrhau cyllid i osod pont newydd, gan ystyried statws Gradd II y bont, a natur newidiol gwely'r afon a'r gorlifdir yn yr ardal leol.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, roedd yn bwysig i ni ymgysylltu â'r gymuned leol. Roeddem wedi derbyn negeseuon ac ymholiadau, gan gynnwys sylwadau gan bobl oedd yn awyddus i weld pont newydd yn cael ei gosod cyn gynted â phosibl, a rhai yn cwestiynu os fyddai'r safle yn elwa o gael ei adael heb bont.

Yn dilyn tystiolaeth llethol y byddai'r cyhoedd yn cefnogi prosiect i osod pont newydd, cyflwynwyd cynnig i gabinet y Cyngor ym mis Tachwedd 2021 i geisio cyllid dechreuol er mwyn penodi ymgynghorwyr i gyflawni'r gwaith mapio ac arolygu angenrheidiol a fyddai'n galluogi'r cyngor i lunio achos busnes priodol i geisio cyllid gan Lywodraeth Cymru i osod pont newydd.

Fel y nodwyd, mae'r Cyngor bellach ar y cam lle mae ymgynghorwyr yn eu lle i gyflawni eu gwaith arolygu a mapio.

Pam nad oedd y Fyddin yn gallu gosod pont dros dro?

Nid yw'r ardal o amgylch Pont Llannerch yn addas ar gyfer pont dros dro. Mae topograffi (cynllun y tir) a phatrymau llifogydd yr afon yn golygu y byddai'n anodd gosod pont dros dro na fyddai'n cael ei ysgubo i ffwrdd fel y Bont wreiddiol, pe byddai digwyddiad o lifogydd eto. Yn ogystal â hynny, rydym angen cadw'r cynaliadau presennol (strwythurau cefnogi ramp) i'r bont, gan fod gweddill y strwythur ei angen fel sylfaen ar gyfer pont newydd arfaethedig ac oherwydd mae gweddill y strwythur yn parhau i fod â statws Gradd II. Mae'r costau rhagweladwy er mwyn cynnal y gwaith i wneud y safle yn addas ar gyfer

pont dros dro yn sylweddol a gallai hyn effeithio ar allu'r Cyngor i sicrhau cyllid ar gyfer pont newydd barhaol.

Yn ogystal â hynny, er mwyn cynnwys y lluoedd arfog mewn unrhyw brosiect i osod pont newydd, byddai angen i'r awdurdod lleol fodloni'r Weinyddiaeth Amddiffyn fod y digwyddiad yn gallu cael ei ystyried yn argyfwng lle mae angen diogelu bywyd dynol, eiddo a lliniaru trallod. Nid yw colli Pont Llannerch yn bodloni'r meini prawf hyn. Ar ben hynny, byddai disgwyl i'r Cyngor ad-dalu unrhyw gostau i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ac fel yr eglurwyd uchod, byddai hyn yn effeithio ar sicrhau cyllid ar gyfer pont barhaol yn ddiweddarach.

Beth mae angen i'r Cyngor ei wneud i sicrhau cyllid i osod pont newydd?

Rydym angen cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru. Yn anffodus, bydd y data gofynnol yn cymryd amser i'w gynhyrchu. Canfod yr angen o fewn y gymuned leol oedd y cam cyntaf a'r pwysicaf. Mae'r 750 o bobl a ymatebodd i'n gweithgaredd ymgysylltiad cyhoeddus yn hydref y llynedd wedi'n helpu ni i brofi bod angen y bont yn lleol. Rydym bellach yn y broses o gyflawni astudiaethau dichonoldeb i benderfynu pa fath(au) o bont y gellir ei ystyried yn lle'r hen Bont Llannerch, ac amcangyfrif y costau o wneud hynny.

Beth yw pryderon Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Chadw sydd angen mynd i'r afael â nhw?

Mae gan CNC gyfrifoldeb am sicrhau na fydd unrhyw strwythur sy'n effeithio ar lif yr afon yn achosi unrhyw ddifrod i'r ecoleg leol nac yn effeithio'n negyddol ar lifogydd i fyny'r afon ac i lawr yr afon o'r bont newydd. Rhan bwysig o'r broses ddylunio fydd modelu effeithiau'r dyluniad newydd ar lif yr afon fel bod CNC yn fodlon na fydd y bont yn achosi unrhyw broblemau anrhagweladwy. Ni ellir gosod yr un bont eto gan fod llif yr afon wedi newid ers i'r bont gael ei hadeiladu bron i 200 mlynedd yn ôl, felly bydd angen i'r dyluniad newydd ystyried hyn.

Seiliodd Cadw eu statws Gradd II ar gyfer Pont Llannerch ar estheteg/dyluniad y bont, ac felly bydd y dyluniad newydd angen ystyried hyn (er, fel y nodwyd uchod, ni ellir gosod yr un math o bont eto yn sgil natur newidiol y gorlifdir yn yr ardal). Bydd statws rhestredig yr hen bont yn ystyriaeth bwysig wrth i'r prosiect pont newydd gyrraedd y cam cais cynllunio.

Sut fydd y Cyngor yn cydbwyso anghenion defnyddwyr y ffordd gyda phryderon trigolion lleol?

Cyn i Bont Llannerch gael ei dinistrio, roedd yn goddef swm mawr o draffig nad oedd y bont na'r ffordd a oedd yn arwain ati wedi cael eu dylunio i ymdopi ag o. Er eu bod yn awyddus i weld bont newydd yn cael ei osod, yn ystod ein hymgysylltiad cyhoeddus yn hydref 2021, dywedodd nifer o drigolion Trefnant a Thremeirchion wrthym ni fod ganddynt bryderon am osod pont yr un fath eto ar sail diogelwch, gan fod lled y ffordd, cyflymder y traffig a dyluniad y bont oll yn achosi pryderon yn lleol.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn credu y dylai'r prosiect fodloni anghenion defnyddwyr y ffordd rŵan ac yn y dyfodol, ac felly mae'r Cyngor yn edrych ar opsiynau dylunio a fydd yn sicrhau nad yw'r ffordd ddynesu yn destun llifogydd a bod yn ffordd gerbydau newydd yn ddigon llydan i sicrhau diogelwch ar y ffordd.

Dyddiad y newyddlen nesaf

Bydd y newyddlen nesaf yn cael ei chyhoeddi ddiwedd yr haf/dechrau hydref 2022.

A ellir cael y newyddlen drwy e-bost?

Pe byddai well gennych dderbyn copïau o newyddlen Pont Llannerch yn electroneg yn y dyfodol, anfonwch e-bost at public.engagement@denbighshire.gov.uk

Sylwadau, ymholiadau a phryderon:

Ysgrifennwch at: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

E-bost: ymgysylltu.cyhoeddus@sirddinbych.gov.uk